

Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig Torfaen (hyd at 2021)

Seilwaith Gwyrdd Canllawiau Cynllunio Atodol

Chwefror 2024

Crynodeb Gweithredol

*Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg
This document is available in English*

Cyflwyniad, Pwrpas a Statws y Canllawiau Cynllunio Atodol

Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) hyn yn nodi dull y Cyngor o ystyried seilwaith gwyrdd (GI) mewn perthynas â datblygiadau newydd. Mae'n rhoi canllawiau ar ddehongli a gweithredu Polisiâu Strategol Cynllun Datblygu Lleol Torfaen (CDLI) mabwysiedig S3 (Newid Hinsawdd) ac S7 (Cadwraeth yr Amgylchedd Naturiol a Hanesyddol). Mae'r CCA yn cynnwys adran Seilwaith Gwyrdd trosfwaol sy'n cael ei ategu gan Atodiadau Technegol sy'n seiliedig ar bwnc ar y materion penodol canlynol:

1. Coed a Choetiroedd o fewn Datblygiadau
2. Mannau Agored a Hamdden
3. Hawliau Tramwy Cyhoeddus o fewn Datblygiadau
4. Dylunio ac Asesu Tirwedd

Mae Bioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau yn cael sylw mewn CCA ar wahân sy'n cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r CCA hwn a dylid ei ddarllen ar y cyd â'r CCA SG hwn.

Mae seilwaith gwyrdd yn cael ei ddiffinio ym Mholisi Cynllunio Cymru Argraffiad 12 (PPW12) fel "y rhwydwaith o nodweddion naturiol a lled-naturiol, manau gwyrdd, afonydd a llynnoedd sy'n croestorri ac yn cysylltu lleoedd". Gall Seilwaith Gwyrdd, sy'n cynnwys seilwaith glas, weithredu ar ystod o wahanol raddfeydd; o ecosystemau cyfan fel gwlyptiroedd ac afonydd i barciau, caeau a gerddi. Gall coed stryd, gwrychoedd, ymylon ffyrdd, a thoeau a waliau gwyrdd i gyd gyfrannu at rwydweithiau seilwaith gwyrdd. Gelwir y nodweddion hyn yn Asedau Seilwaith Gwyrdd ac mae ganddyn nhw rôl i'w chwarae wrth gefnogi bioamrywiaeth a sicrhau manteision iechyd, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol.

Mae enghreifftiau o Asedau Seilwaith Gwyrdd fel a ganlyn:



Parciau a Gerddi Ffurfiol

- Parciau
- Tiroedd Hamdden



Tiroedd Sefydliadol

Mynwentydd Eglwysi, Mynwentydd, tiroedd ysgolion, ysbytai a chartrefi preswyl



Mannau Gwyrdd Naturiol

- Coetiroedd, Glaswelltir, Rhostiroedd
- Corsydd, Afonydd a Nentydd



Asedau Treftadaeth

- Safle Treftadaeth y Byd, Parc Cenedlaethol
- Parciau a Gerddi Rhestredig, Henebion Rhestredig, Adeiladau



Mannau Gwyrdd Amwynder

- Caeau chwaraeon, mannau chwarae, rhandiroedd
- Mannau gwyrdd anffurfiol



Rhestredig Coridorau gwyrdd

- Llwybrau beicio, Hawliau Tramwy, glannau afonydd a chamlesi, ymylon ffyrdd a rheilffyrdd

Mae'r dull Seilwaith Gwyrdd o gynllunio cynlluniau datblygu yn sicrhau ein bod yn gwneud y mwyaf o'r manteision hyn ac yn helpu i gynyddu ein gallu i wrthsefyll effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.

Mae gan seilwaith gwyrdd rôl hanfodol bwysig i'w chwarae hefyd wrth greu lleoedd, gan helpu i greu dyluniad safle nodedig, bioamrywiol a gwydn a fydd hefyd yn cyfrannu at ein canlyniadau iechyd a lles.

Cafwyd ymgynghoriad ar ddrafft o'r CCA hwn am gyfnod o chwe wythnos gyda sylwadau a dderbyniwyd yn cael eu hystyried yn y fersiwn derfynol yma a gymeradwywyd i'w mabwysiadu gan benderfyniad y Cyngor ar 27^{ain} Chwefror 2024. Fe'i paratowyd yn unol â'r polisiau sydd wedi'u cynnwys yn:

- Cymru'r Dyfodol (Chwefror 2021)
- Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig Torfaen (Rhagfyr 2013)

a chanllawiau sydd wedi'u nodi yn:

- Adeiladu Lleoedd Gwell (Gorffennaf 2020)
- Polisi Cynllunio Cymru 12fed Argraffiad (Chwefror 2024)
- Nodyn Cyngor Technegol 5: Cynllunio a Chadwraeth Natur (2009)

Cyd-destun Deddfwriaeth a Pholisi

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru gyflawni datblygu cynaliadwy. Gall y dull Seilwaith Gwyrdd helpu'n benodol i gyflawni nifer o'r nodau cysylltiedig i alluogi'r canlynol: -

- cynnal a gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau sy'n gweithio'n iach sy'n cefnogi gwydnwch cymdeithasol, economaidd ac ecolegol a'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd);
- darparu ecosystemau iach a rhyng-gysylltiedig sy'n darparu'r manteision cudd mae cymdeithas ddynol yn dibynnu arnynt;
- gwneud y mwyaf o lesiant corfforol a meddyliol pobl gyda dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol yn cael eu deall;

- lle ar gyfer ymarfer corff a gwella lles drwy greu amgylcheddau deniadol i fyw a gweithio ynddynt. Gallant helpu pobl (yn enwedig plant) i ailgysylltu â natur sydd wedi yn gymorth gwerthfawr i les corfforol a meddyliol;
- Cymunedau deniadol, hyfyw, diogel sydd â chysylltiadau da; a
- mewnfuddsoddi, lleihau troseddu, darparu llwybrau trafniadaeth diogel a chyfleoedd ar gyfer cydlyniant cymunedol a chymdeithasol drwy gynlluniau tyfu cymunedol a darparu lleoedd i gwrdd a chymdeithasu.

Mae'r dull Seilwaith Gwyrdd yn defnyddio'r cysyniad o wasanaethau ecosystemau fel ffordd o edrych ar ein dulliau o reoli adnoddau naturiol sydd hefyd yn cyd-fynd â gofynion Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol (2021) yw'r haen uchaf o gynllun datblygu ac mae'n canolbwyntio ar atebion i faterion a heriau mae Llywodraeth Cymru yn ystyried eu bod o flaenoriaeth genedlaethol. Mae Polisi 9 (Rhwydweithiau Ecolegol a Seilwaith Gwyrdd Gwydn) yn ceisio sicrhau gwelliant bioamrywiaeth, gwydnwch ecosystemau a darparu seilwaith gwyrdd mae'n rhaid ei ddangos fel rhan o gynigion datblygu drwy ddulliau arloesol, seiliedig ar natur o gynllunio safle a dylunio'r amgylchedd adeiledig.

Mae PPW12 (2024) hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd integreiddio seilwaith gwyrdd mewn datblygiadau newydd ac yn darparu set o Ganlyniadau Creu Lleoedd Cynaliadwy Cenedlaethol, mae dau ohonynt yn cyfeirio'n benodol at y rôl y gall seilwaith gwyrdd ei chwarae o fewn creu lleoedd llwyddiannus.

Y prif bolisiau yng Nghynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig Torfaen (2013) yw Polisi S3 (Newid yn yr Hinsawdd) ac S7 (Cadwraeth yr Amgylchedd Naturiol a Hanesyddol) sy'n ei gwneud yn ofynnol bod yn rhaid i gynigion ar gyfer pob datblygiad newydd roi sylw llawn i gyd-destun yr amgylchedd naturiol ac adeiledig lleol a'i nodweddion arbennig. Polisiau perthnasol eraill yw S2, S4, BW1, SAA2, SAA5, SAA7, H5, EET4, EET6, RLT2, T3, CF2, CF4, CF5, CF6, a HE2 a gellir edrych yn llawn ar y rhain drwy <https://www.torfaen.gov.uk/en/Related-Documents/Forward-Planning/Adopted-Torfaen-LDP-Written-Statement.pdf>

Seilwaith Gwyrdd mewn Datblygiadau Newydd

Mae angen i ymgeiswyr ddangos eu bod wedi ystyried y seilwaith gwyrdd presennol wrth baratoi eu cynllun ar gyfer safle ac wedi nodi unrhyw gyfleoedd ar gyfer cysylltedd a gwella'r adnodd presennol drwy'r cynigion dylunio. I gyflawni hyn, dylai datblygwyr ddilyn y camau allweddol isod:

1. nodi a mapio asedau SG presennol yn y safle ac o'i amgylch trwy gynhyrchu Cynllun Cyd-destun SG;
2. nodi anghenion lleol SG /gofynion safle ac ystyried sut y gall y datblygiad gyfrannu at yr anghenion hyn. Archwilio cyfleoedd i ddiwallu'r anghenion hyn trwy gynhyrchu Cynllun Cyfleoedd SG; ac
3. ymgorffori cynigion yn y dyluniad sy'n cynnal, cadw a gwella SG, gan sicrhau cysylltedd â'r rhwydwaith SG cyfagos drwy gynhyrchu Cynllun Cysyniad SG.

Dylid nodi a mapio asedau SG presennol yn y safle datblygu ac o'i amgylch. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen wedi cynhyrchu nifer o haenau SGS (mapio) ar gyfer y cyhoedd y gellir eu defnyddio fel sail ar gyfer mapio SG ar draws y fwrdeistref. Darperir elfennau

allweddol seilwaith gwyrdd ynghyd â chyfyngiadau a chyfleoedd dylunio safleoedd eraill ar y Map Uwchgynllunio rhyngweithiol sydd ar gael yn

<https://torfaen.opus4.co.uk/planning/localplan/maps/torfaen-masterplanning-map#/center/51.694,-3.0414/zoom/13/baselayer/b:31/layers/>

Yn fwy penodol, mae'r ddolen ganlynol i Fap Mannau Gwyrdd CBST yn cyflwyno data ar leoliad manau gwyrdd naturiol, manau gwyrdd amwynder, parciau a gerddi ffurfiol, rhandiroedd, perllannau, manau chwarae, caeau chwaraeon a thiroedd sefydliadol fel ysbytai, ysgolion a mynwentydd. Gellir troi pob haen ymlaen ac i fwrdd gan ddefnyddio'r blwch ticio ar ochr dde'r sgrin.

http://gis.torfaen.gov.uk:8010/connect/analyst/mobile/#/main?mapcfg=Public%20View&lang=en_GB&overlays=Gritting%20Routes%20%E2%80%93%20Llwybrau%20Graeanu

Yn y ddau achos, mae'r wybodaeth a ddarperir yn ddangosol yn unig a dylid ei gwirio ar lawr gwlad cyn iddi gael ei chynnwys mewn unrhyw gyflwyniad.

Dylid arfarnu'r swyddogaethau (neu'r gwasanaethau ecosystem) a ddarperir gan asedau SG presennol drwy ymweliadau safle, a thrwy gyfeirio at ddata a gwybodaeth perthnasol gan gynnwys asesu cysylltedd asedau SG presennol ar gyfer pobl a bywyd gwyllt o fewn y safle ac o amgylch y gymdogaeth gyfagos. Dylid cynnwys cyflwr pob ased yn yr asesiad hwn lle bynnag y bo modd. Dylai'r arfarniad fod yn gymesur â graddfa'r cynnig datblygu. Bydd cyfeiriad i Atodiad 1 (Diffiniad o Swyddogaethau) ac Asesiad Seilwaith Gwyrdd Torfaen a gyhoeddir ochr yn ochr â'r CCA hwn yn cynorthwyo i nodi swyddogaethau SG. Mae'r Atodiadau Technegol i'r CCA hwn yn rhoi arweiniad ar sut y dylid asesu rhai asedau SG, sef coed, coetiroedd a darpariaeth manau agored.

Dylai cyfleoedd i ddarparu SG hefyd gael eu llywio gan yr arolwg a'r dadansoddiad o asedau SG presennol yn y safle datblygu ac o'i amgylch. Mae Rhestr Wirio Dylunio SG yn Adran 4.0 yn darparu rhestr ddefnyddiol o ystyriaethau i helpu datblygwyr i nodi cyfleoedd a allai fod yn briodol i'r safle a'i gyd-destun. Mae darpariaeth, cymeriad a dosbarthiad cyfleoedd SG yn dibynnu ar natur y lleoliad, y math o ddatblygiad a'r cyfraniad y gall ei wneud i gysylltedd a darparu gwasanaethau ecosystemau.

Dylid cofnodi cyfleoedd ar gyfer darpariaeth SG yn y safle, ac o'i amgylch ar Gynllun Cyfleoedd SG a all lywio a siapio opsiynau dylunio cynllun y safle a bod yn gymorth defnyddiol ar gyfer trafodaethau cychwynnol cyn ymgeisio gyda swyddogion cynllunio'r Cyngor ac ymgylgoreion statudol.

Yna dylai Cynllun Cysyniad SG ystyried sut y gellir ymgorffori cynigion ar gyfer cynnal, diogelu a gwella SG, a sicrhau cysylltedd â'r rhwydwaith SG cyfagos, yn nyluniad cynllun y safle ar gyfer y datblygiad drwy:

- Cadw ac integreiddio asedau SG presennol yn y datblygiad;
- Darparu mesurau lliniaru a digolledu lle na ellir osgoi niwed i/colli asedau SG presennol; a
- Ymgorffori darpariaeth SG newydd a gwell o fath, safon a maint priodol. Dylai'r cynigion gael eu llywio gan Gynllun Cyd-destun y SG (cam 1) ac ymateb i'r Cynllun Cyfleoedd SG (cam 2).

Bydd angen i gynigion datblygu sy'n niweidio'r rhwydwaith SG ddarparu mesurau lliniaru a digolledu cynhwysfawr i sicrhau bod ymarferoldeb a chysylltedd cyffredinol y rhwydwaith SG yn cael ei gynnal. Gallai mesurau o'r fath gael eu darparu oddi ar y safle lle nad yw darpariaeth ar y safle yn bosibl er y byddai hyn yn cael ei ystyried fel y dewis olaf. Dylid cyfeirio hefyd at y CCA Bioamrywiaeth, Gwydnwch Ecosystemau a Datblygiad ar wahân.

Dylai nodi mathau priodol o SG gael ei lywio gan y broses a'r egwyddorion ar gyfer ymgorffori SG mewn datblygiad a amlinellir yn yr adran hon o'r CCA. Yn unol ag arfer derbyniol, nid yw'r CCA yn cynnwys safonau meintiol ar gyfer pob math o SG (e.e. coridorau gwyrdd, mynwentydd a mannau gwyrdd swyddogaethol). Rhaid i gynigion ar gyfer SG newydd a gwell fodloni'r safonau gofynnol mabwysiedig ar gyfer darpariaeth a nodir ym Mholisi CF5 CDLI mabwysiedig (Diogelu Rhandiroedd a Mannau Agored Hamdden a Mwynderau), Polisi H5 (Darparu ar gyfer Hamdden, Mannau Agored, Cyfleusterau Hamdden a Rhandiroedd), Polisi S8 (Rhwymedigaethau Cynllunio) a'r CCA Rhwymedigaethau Cynllunio Diwygiedig (Chwefror 2023).

Datganiad Seilwaith Gwyrdd

Fel sy'n ofynnol yn ôl PPW12, dylai Datganiad Seilwaith Gwyrdd gael ei gyflwyno gyda phob cais cynllunio. Gall Cynlluniau a Datganiadau SG fod yn rhan o'r Datganiad Dylunio a Mynediad a dylent nhw fod yn gymesur â natur a maint y cynnig. Dylent nhw osod gerbron sut mae'r dull Fesul Cam wedi ei ddefnyddio (cyfeiriad at TAN 5 a CCA Bioamrywiaeth, Cydnerthedd Ecolegol a Datblygiad y Cyngor), unrhyw ddata arolygon / canlyniadau asesiadau safle, a sut mae seilwaith gwyrdd wedi ei gynnwys yn y cynnig.

Y Datganiad Seilwaith Gwyrdd yw penllanw'r dadansoddiad uchod a dylai ddangos sut mae gan holl elfennau'r SG arfaethedig (rhai newydd a rhai a gedwir) rôl a diben clir o fewn y datblygiad. Dylai'r casgliadau sy'n cael eu llunio gael eu mynegi yn y cynlluniau / lluniadau datblygu a dylent egluro sut mae hyn yn cyflawni dyluniad da. Dylai'r Datganiad gynnwys darluniau, lluniadau a chynlluniau i ddangos sut y dehonglwyd adroddiadau a data technegol a sut y daethpwyd i gasgliadau sydd wedi llywio'r cynllun a ddyluniwyd. Dylai'r Datganiad egluro sut mae'r asedau SG arfaethedig yn y cynllun datblygu yn cysylltu â'r rhwydwaith SG ehangach.

Atodiad Technegol 1: Coed a Choetiroedd o fewn Datblygiadau

Mae coed a choetiroedd yn cael eu gwarchod gan ddeddfwriaeth, polisi cynllunio cenedlaethol a chanllawiau polisi. Dylid asesu coed o fewn safle datblygu a/neu wrth ymyl safle datblygu yn unol â BS 5837 (Parch 7) neu safon wedi'i diweddarau. Mae hyn yn gofyn am gynhyrchu'r canlynol gan Dyfwr Coed cymwys:

- a) Arolwg Coed (TS)
- b) Cynllun Cyfyngiadau Coed (TCP)
- c) Asesiad Effaith Coedyddiaeth (AIA)
- d) Datganiad Dull Coedyddiaeth (AMS)
- e) Cynllun Diogelu Coed (TPP)

Mae'r Atodiad Technegol yn darparu ar gyfer gwarchod coed aeddfed ac o ansawdd uchel sy'n bodoli eisoes, gyda pharthau clustogi ar gyfer coetir (15 metr) a gwrychoedd (5 metr).

Dylid ystyried coed a choetiroedd ar ddechrau'r broses gynllunio a dylunio ar gyfer unrhyw safle datblygu. Y sefyllfa ddiofyn ddylai fod i gadw'r holl goed a choetir ar y safle oni bai bod rhesymau cadarn i'r gwrthwyneb. Gall coed aeddfed, gwrychoedd a blociau coetir ddod ag ymdeimlad o aeddfedrwydd ar unwaith i safle datblygu ac mae astudiaethau wedi dangos y bydd amgylchedd coed yn cynyddu gwerthoedd eiddo. Dangoswyd bod gweld natur, hyd yn oed os mai dim ond un coeden fo hynny, yn cael effaith sylweddol ar les.

Dylid gosod adeiladau y tu allan i Barth Gwarchod Gwreiddiau (RPZ) coed sy'n bodoli eisoes, a lledaeniad canghennau presennol a thebygol i roi lle byw i goed dyfu iddo. Parth gwarchod gwreiddiau coeden yw'r pellter sydd ddeuddeg gwaith yn fwy na chylchedd y goeden wedi'i fesur ar uchder boncyff o 1.5m. Anaml mae canopi coeden yn gylchol a dylai'r arolwg coed blotio siâp amlochrog y canopi yn gywir. Bydd angen addasu'r RPZ i ystyried natur anghymesur y canopi.

Atodiad Technegol 2: Mannau Agored a Darpariaeth Hamdden o fewn Datblygiadau

Mae'r Atodiad Technegol hwn yn cyfeirio at y mathau canlynol o fannau agored:

Man Agored Cyhoeddus	Eiddo cyhoeddus ac yn gwbl hygyrch i'r cyhoedd
Mannau gwyrdd amwynder	Ymylon achlysurol Ardaloedd Hamdden Anffurfiol Ymylon wedi'u tirlunio
Ardaloedd chwarae	Ardaloedd Chwarae Lleol (LAP) Ardaloedd Chwarae Lleol â chyfarpar (LEAP) Ardaloedd Chwarae Cymdogaeth â chyfarpar (NEAP)
Darpariaeth ieuenctid	Ardaloedd Gemau Aml-ddefnydd (MUGA) Llochesi ieuenctid Parciau sglefrio Parkour
Rhandiroedd	Statudol Dros Dro
Tyfu cymunedol	Gerddi Cymunedol Perllannau Traddodiadol Perllannau Cymunedol
Chwaraeon a Hamdden	Pêl-droed Rygbi Tenis Hoci Bowlio Golf Athletica

Mae polisiâu'r CDLI mabwysiedig yn darparu amddiffyniad i lawer o'r teipolegau manau agored uchod ac maen nhw hefyd yn darparu ar gyfer cyfleusterau newydd mewn cysylltiad â datblygu. Dylai'r datblygwr gynnal asesiad i benderfynu pa ddarpariaeth leol sy'n gwasanaethu safle. Mae'r broses hon yn defnyddio cyfres o bellteroedd llinell syth ar gyfer gwahanol categorïau o fannau agored i gyflawni dalgylchoedd lleol.

Mae gofynion ar gyfer faint o fannau agored sydd i'w geisio mewn perthynas â math penodol o ddatblygiad i'w gweld yn yr CCA Rhwymedigaethau Cynllunio Diwygiedig: Atodiad 6 Hamdden a Mannau Agored (Chwefror 2023).

Dylai elfen manau agored y ddarpariaeth SG ar gyfer y safle gael ei hintegreiddio'n llawn yn y broses ddylunio cyn penderfynu ar gynllun yr adeilad. Gall integreiddio'r nodweddion naturiol presennol ar y safle, fel coed, gwrychoedd ac ardaloedd dolydd ychwanegu cymeriad ac aeddfedrwydd at ofod newydd. Dylid defnyddio canlyniad Cyd-destun a Chynlluniau Cyfleoedd SG a'r arfarniad tirwedd i lywio'r dyluniad. Dylai'r dyluniad gyfrannu'n gadarnhaol at wella bioamrywiaeth y safle.

Dylai gofod chwarae fod o ansawdd uchel a dyluniad da i ddenu plant, pobl ifanc a theuluoedd. Dylai ardaloedd ar gyfer chwarae plant fod:

- wedi'u lleoli lle mae'n destun gwyliadwriaeth naturiol o eiddo cyfagos;
- wedi'u gwahanu oddi wrth symudiadau cerbydau mawr ac yn hygyrch o lwybrau ag arwyneb caled;
- parchu clustogfeydd safonol Meysydd Chwarae Cymru (FiT) i sicrhau cyn lleied o darfu â phosibl ar breswylfeydd cyfagos;
- o werth chwarae da fel sy'n cael ei ddiffinio gan Ganllawiau Chwarae Cymru;
- o adeiladwaith cadarn a gwydn;
- yn hygyrch i bawb ac mor gynhwysol â phosibl;
- yn darparu ar gyfer plant ag anableddau corfforol ac anawsterau dysgu a synhwyraidd.

Dylid darparu caeau maint llawn yn unol â gofynion y Corff Llywodraethol y darperir chwaraeon ar eu cyfer. Mae angen manylion cynllun draenio llawn gan gynnwys draenio a chynnal a chadw saethben a llaid tywod a'r drefn reoli barhaus i sicrhau cynaliadwyedd y cynllun. Ar gynlluniau mwy efallai y bydd angen ystafelloedd newid a chyfleusterau ategol eraill.

Darperir ystyriaethau dylunio ar gyfer darpariaeth rhandiroedd newydd i ategu'r gofyniad yn Atodiad 6 yr CCA Rhwymedigaethau Cynllunio Diwygiedig (Chwefror 2023).

Dylid cyflwyno cynllun rheoli sy'n dangos: -

- Cyfnod sefydlu 5 mlynedd o waith meddal;
- Cynnal a chadw gwaith meddal a chaled parhaus;
- Trefniadau ar gyfer archwilio offer chwarae a chyllideb cynnal a chadw ar gyfer atgyweirio ac ailosod offer dros amser;
- Trefniadau ar gyfer cynnal a chadw arwynebau lleiniau a systemau draenio a chyfleusterau ategol; a
- Threfniadau ar gyfer sefydlu unrhyw drefniadau llywodraethu parhaus ar Gwmni Rheoli.

Atodiad Technegol 3: Hawliau Tramwy Cyhoeddus o fewn Datblygiadau

Mae Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn elfen bwysig o fewn y rhwydwaith seilwaith gwyrdd sy'n darparu coridorau gwyrdd lle gall pobl ac yn aml bywyd gwyllt symud drwy'r

fwrdeistref. Yn hanesyddol, roedd y llwybrau hyn yn rhedeg ar draws cefn gwlad agored ond yn raddol maen nhw'n cael eu hamsugno i'r ardaloedd trefol sy'n ehangu. Mae'n bwysig bod arwyddocâd llwybrau o'r fath yn cael ei gydnabod gan eu bod yn aml yn cynnig ffordd uniongyrchol o gael mynediad i gefn gwlad lleol a chymunedau cyfagos. Maen nhw hefyd yn cynnig opsiwn arall yn lle cludiant ar y ffordd, sydd o bwysigrwydd cynyddol wrth i gymunedau geisio dibynnu llai ar y car a symud tuag at ddulliau trafndiaeth mwy cynaliadwy.

Mae'n bwysig i ddylunwyr a datblygwyr sylweddoli nad yw rhoi caniatâd cynllunio yn rhoi hawl i ddatblygwyr rwystro hawliau tramwy cyhoeddus, ac ni ddylid cymryd yn ganiataol y bydd Gorchymyn Llwybr Cyhoeddus yn cael ei wneud neu ei gadarnhau yn ddieithriad.

Mae'r Map Diffiniol o Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn dangos y mathau canlynol o lwybrau:-

- Llwybrau Cyhoeddus (FP)
- Llwybrau Ceffylau (BR)
- Cilffyrdd Cyfyngedig (RB) (cael eu dangos fel CRB neu CRF ar y map Diffiniol)
- Cilffyrdd sy'n Agored i bob Traffig (BOAT)

Os oes angen ymgorffori PRow presennol o fewn datblygiad, adlinio PRow presennol neu greu llwybr newydd, dylid arsylwi yr ystyriaethau canlynol:

- dylai hawliau tramwy cyhoeddus newydd neu wedi'u dargyfeirio, yn ddelfrydol, redeg trwy fannau agored wedi'u tirlunio a grëwyd o fewn y datblygiad i greu llwybrau a ddefnyddir yn dda ac sy'n ddymunol yn esthetig;
- dylai llwybrau redeg ochr yn ochr â llwybrau eraill fel llwybrau beicio neu briffyrdd er mwyn cael y mwyaf o wyliadwriaeth;
- dylai'r arwyneb fod yn berthnasol i'r math a'r lefel ddisgwyliedig o ddefnydd;
- dylai cynlluniau goleuo daflu goleuadau i lawr ar y llwybrau i leihau effaith llygredd golau trefol;
- rhaid rhoi ystyriaeth hefyd i anghenion pobl sy'n defnyddio cadeiriau gwthio, cadeiriau olwyn a sgwteri symudedd; a
- dylai tirlunio gynnwys llwyni isel, plannu blodau gwyllt neu lle mae llwybrau trefol yn pasio rhwng adeiladau. Dylid darparu trefn reoli briodol.

Atodiad Technegol 4: Dylunio ac Asesu Tirwedd

Bydd atebion dylunio tirwedd ar gyfer pob safle yn dibynnu ar raddfa a math y datblygiad mewn perthynas â'i gyd-destun tirwedd. Felly, rhaid ystyried dyluniad y datblygiad yn nhermau'r dirwedd. Mae hyn yn cael ei gyflawni drwy asesu ac arfarnu nodweddion presennol y dirwedd, nodi cyfyngiadau ac atebion a'r defnydd posibl o fesurau lliniaru i sicrhau bod y datblygiad yn gydnaws â chymeriad y dirwedd leol. Dylai ymgeiswyr nid yn unig ystyried sut y bydd y safle'n gweithredu ynddo'i hun ond hefyd sut mae'n berthnasol i'r dirwedd neu'r drefwedd o'i amgylch.

Dylid cynnal arfarniad tirwedd o'r safle sy'n ystyried y topograffi, nodweddion ecolegol ar y safle, cyflwr y ddaear, priddoedd, llystyfiant presennol, mynediad i gerbydau, cerddwyr a beicio, llwybrau troed a hawliau tramwy cyhoeddus presennol, seilwaith presennol y safle gan gynnwys waliau, palmant, strwythurau yn ogystal ag unrhyw nodweddion archeolegol a threftadaeth sy'n bresennol. Efallai y bydd angen comisiynu'r arolygon canlynol i asesu cyflwr a gwerth posibl yr elfennau hyn: -

- Arolwg topograffig
- Arolwg Pridd
- Arolwg Coed
- Arfarniad Ecolegol Rhagarweiniol gan gynnwys Arolwg Cynefinoedd Cam 1
- Arolwg Archeolegol

Dadansoddiad o olygfeydd i mewn ac allan o'r safle gan gynnwys ansawdd y golygfeydd. Gallai nodweddion tirwedd penodol e.e. henebion hanesyddol neu olygfeydd golygfaol fod yn ganolbwynt i unrhyw gynllun newydd.

Lle mae safle'n debygol o gael effaith weledol a/neu dirwedd ar yr amgylchedd o'i amgylch, efallai y bydd angen Asesiad Tirwedd ac Effaith Weledol. Dylai'r asesiad hwn gael ei gynnal gan ymgynghorydd â chymwysterau addas gan ddefnyddio 'Canllawiau ar gyfer Asesu'r Dirwedd a'r Effaith Weledol (GLVIA3) Ebrill 2013' gan y Sefydliad Tirwedd neu'r adolygiad diweddaraf. Ar gyfer cynigion datblygu ar raddfa fwy, efallai y bydd angen asesiad tirwedd strategol hefyd. Mae hwn yn asesiad o gymeriad y safle a'i leoliad a dylid ei ddefnyddio i nodi cyfleoedd ar gyfer integreiddio datblygiad i'r dirwedd/drefwedd o'i amgylch. Mae hyn yn sicrhau bod y cynllun ar raddfa briodol ac yn cyd-fynd â'r ardal leol, gan atgyfnerthu neu wella'r ymdeimlad lleol o le. Gellir defnyddio asesiadau cymeriad tirwedd cenedlaethol a lleol presennol gan gynnwys data Cyfoeth Naturiol Cymru LANDMAP i wneud yr asesiad hwn.

Ar ganiatâd cynllunio amlinellol, dylid cyflwyno cynllun tirwedd strwythurol sy'n dangos priif ardaloedd manau agored, darpariaeth Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS), plannu coed dangosol gan gynnwys rhywogaethau, ardal chwarae a maint a lleoliad caeau chwaraeon. Bydd angen i gynllun plannu cwbl fanwl sy'n rhoi union rywogaethau, niferoedd, meintiau a dwyseddau gael ei gymeradwyo yn ystod y cam ymgeisio Materion a Gedwir yn Ôl.

Yn ystod y cam ymgeisio llawn dylid cyflwyno'r cynllun tirwedd a'r cynllun plannu fel isod gyda'r cais gan gynnwys manylion unrhyw gynllun ardal chwarae a chae chwaraeon. Lle bo angen, rhaid cyflwyno cynllun ardal chwarae manwl gan gynnwys yr union offer, manau gofod rhydd, uchder cwympiadau critigol, gathau a ffensys a manylion arwyneb i'w gymeradwyo. Os ydych am iddo gael ei fabwysiadu gan yr awdurdod lleol, rhaid i'r dyluniad fod yn ddigon cadarn ac o werth chwarae da. Mae rhagor o fanylion, gan gynnwys y weithdrefn ar gyfer mabwysiadu, ar gael yn Atodiad Technegol 2: Manau Agored a Chyfleusterau Hamdden yr SPA hwn a'r CCA Rhwymedigaethau Cynllunio Diwygiedig Atodiad 6: Atodiad 2023 Hamdden a Manau Agored (Chwefror 2023).

Manylion Cyswllt

Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r CCA hwn, mae croeso i chi gysylltu â ni:-

- am gyngor rheoli datblygu - planning@torfaen.gov.uk;
- am gyngor polisi cynllunio ac ecoleg - ldp@torfaen.gov.uk;
- am gyngor ecolegol a seilwaith gwyrdd - steve.williams@torfaen.gov.uk.